| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PRIF BWYLLGOR CRAFFU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **9 RHAGFYR 2010** |
| **TEITL** | **CYDWEITHIO/ARBEDION** |
| **AWDUR** | **HARRY THOMAS**<br>**PRIF WEITHREDWR** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **ARWEINYDD Y CYNGOR**<br>**DYFED EDWARDS** |
| | |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Argymhellion y Prif Weithredwr ar gynnig arbedion categori C ynghylch Uwch Reolwyr.**<br><br>**Cyfle amgen am arbedion drwy'r potensial am gydweithio ar raddfa fawr gyda Chyngor Sir Ynys Môn.** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **Adrodd i Fwrdd y Cyngor 14 Rhagfyr**<br><br>**Adrodd i'r Cyngor llawn 16 Rhagfyr** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Y llynedd, fe wnaeth y Cyngor weithredu fy argymhellion i ostwng cost uwch reolwyr a chefnogaeth gorfforaethol ganolog gan £1miliwn. Yn dilyn hyn, penderfynodd yr aelodau eu bod am ymchwilio i'r posibilrwydd o ostyngiad pellach mewn costau uwch reolwyr fel rhan o'r fframwaith arbedion £16 miliwn. Fodd bynnag, rhoddwyd y posibilrwydd hwn yng nghategori C h.y. cynlluniau oedd mewn meysydd yr oedd aelodau am eu hymchwilio ymhellach, ond eu bod yn ansicr, ar y pryd, ynghylch rhinweddau a risgiau'r cynigion unigol.

1.2 Fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor, fy nghyngor clir i'r aelodau ar y pryd oedd y dylent aros i asesu sut fyddai'r Cyngor yn ymdopi ag effeithiau'r gostyngiad o £1 miliwn yng nghostau uwch reolwyr cyn ystyried gostyngiadau pellach. Roedd hyn yn seiliedig ar y ffaith y byddai'r newidiadau wedi'u cymeradwyo yn adfer ein safle fel y Cyngor â'r sefydliad uwch reolwyr cost isaf yng ngogledd Cymru. A hynny ar adeg pan oedd y Cyngor yn wynebu rhaglen fawr o newid a thrawsffurfio gwasanaethau y byddai gofyn cael capasiti arwain digonol ar ei chyfer.

1.3 Mae fy asesiad o'r potensial am ostyngiad pellach mewn uwch reolwyr yn seiliedig yn bennaf ar ddwy ffactor.

- **Ymdopi â'r strwythur newydd** – drwy gyfuniad o dechnegau rheolaethol newydd (e.e. Rheoli Rhaglen ac Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau) a'r toriad yn y berthynas rheolwr llinell draddodiadol rhwng y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth sydd wedi rhoi mwy o bŵer i Benaethiaid Gwasanaeth, mae Uwch Reolwyr wedi ymdopi'n dda gyda'r gostyngiad mewn adnoddau ar adeg o newid cynyddol.

- **Agenda Newid Cynyddol** – Ar yr un pryd, mae'r agenda newid, sy'n gofyn am fwy o gapasiti arwain ac uwch reolwyr, wedi cynyddu ar raddfa gyflymach nag ellid fod wedi'i rhagweld pan ostyngwyd yr adnodd uwch reolwyr yn wreiddiol. Mae'r rhagolygon ariannol yn llawer gwaeth ac mae hyn wedi arwain at yr holl brosiectau newid sy'n gysylltiedig â'r cynllun arbedion £16 miliwn a nifer o gynlluniau eraill sydd ar y gweill er mwyn pontio'r diffyg ariannol a ragwelir. Hefyd, fel y gwelir yn y paragraffau isod, mae'r angen am arweinyddiaeth lorweddol ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer yr holl Uwch Reolwyr yn y flwyddyn ddiwethaf.

1.4 Tra fy mod i wedi fy siomi ar yr ochr orau gyda'r ffordd y mae Uwch Reolwyr wedi ymdopi gyda'r gostyngiad mewn adnoddau uwch reolwyr a'r newid canlynol yn y ffordd yr ydym yn gweithio, ni allaf, ar hyn o bryd, argymell gostyngiad pellach mewn adnoddau Uwch Reolwyr. Eisoes, rwy'n bryderus ynghylch y llithrad mewn rhai o'r prif raglenni newid ac arwyddion eraill o orlwytho. Credaf y byddai unrhyw ostyngiad pellach yn dod ag arbedion ariannol byr dymor ar draul cynnydd yn y tymor canolig. Byddai gostyngiad pellach mewn cost yn cynnig gwerth gwael yn y tymor hwy. Felly, fy nghyngor clir fel Swyddog Statudol yw na fyddai gostyngiad pellach mewn uwch reolwyr yn fuddiol ar y pwynt yma.

1.5 Fodd bynnag, mae cyfle amgen wedi codi yn ddiweddar y gallai aelodau deimlo ei fod yn werth ei ystyried ymhellach. Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant, wedi cysylltu ag arweinwyr Cynghorau Môn a Gwynedd gyda'r bwriad o archwilio'r posibilrwydd i'r ddau gyngor gynyddu eu cydweithio yn sylweddol. Mae'n annog y ddau Gyngor i gymryd rhan mewn astudiaeth sgopio er mwyn canfod y potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy integreiddio darpariaeth gwasanaethau ond o fewn fframwaith o ddau gorff sofran democrataidd ar wahân.

1.6 Byddai hyn yn golygu archwilio rhinweddau integreiddio Uwch Reolwyr, gwasanaethau cefnogol a rhai gwasanaethau rheng flaen. Ceir dogfen a gynigiwyd gan y gweinidog ar gyfer y ddau gyngor sy'n disgrifio egwyddorion yr astudiaeth sgopio yn Atodiad 1. Mae'r ddogfen yn nodi'n glir na fyddai'r naill ochr na'r llall yn ymrwymedig i dderbyn na gweithredu darganfyddiadau unrhyw astudiaeth sgopio.

Nid wyf o'r farn y dylai aelodau gytuno'n awtomatig i gymryd rhan mewn astudiaeth sgopio o'r fath heb feddwl i ddechrau am egwyddorion cydweithio ar raddfa fawr o'r math hwn. Os yw'r aelodau'n teimlo'n gryf yn erbyn yr egwyddor o'r cychwyn cyntaf, nid oes unrhyw bwrpas mewn gwastraffu amser ac adnoddau wrth fynd i'r afael â'r mater ymhellach. Er mwyn cynorthwyo'r aelodau ymhellach gyda'r penderfyniad hwn, rydw i wedi nodi peth gwybodaeth bellach isod:

## 2.0 CYD-DESTUN

2.1 Mae gofyn i aelodau fod yn ymwybodol o'r datblygiad cyflym mewn cynlluniau cydweithio sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae'r agenda cydweithio wedi magu momentwm eleni yn bennaf oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd yn y sector cyhoeddus.

### Datblygiadau Cenedlaethol

2.2 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi crynodeb o gydweithio rhanbarthol yn ddiweddar (sydd ar gael ar ei gwefan). Mae hwn yn rhoi manylion o dros gant o gynlluniau cydweithio ledled Cymru. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac nid yw'n rhestru'r cynlluniau cydweithio hanesyddol sydd wedi bod mewn bodolaeth ers cryn amser. Mae'n amlwg bod maint y gweithgaredd cydweithio newydd yn cynyddu'n gyflym ledled Cymru.

2.3 Yn y gwanwyn eleni, fe wnaeth y Gweinidog dros Fusnes a Chyllideb, Jane Hutt, sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi cenedlaethol ar draws yr holl sectorau cyhoeddus. Mae gan y Bwrdd saith ffrwd gwaith:

- Caffael a Chomisiynu Cydweithredol
- Rheoli Asedau Cenedlaethol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Gwasanaeth Cyhoeddus
- Gweddnewid y Busnes
- Modelau Newydd ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau
- Datblygu'r Gweithlu
- Arweinyddiaeth

Mae taflen sy'n rhoi rhagor o fanylion ar waith y Bwrdd ynghlwm yn Atodiad 2. Mae gwaith y Bwrdd yn magu momentwm ac yn hyrwyddo cydweithio ledled Cymru. Yn ddiweddar, fe wnaeth fabwysiadu Strategaeth TG Genedlaethol i Gymru a fydd yn arwain at lai o ddyblygu a defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o TG yn y sector cyhoeddus.

2.4 Yn ddiweddar, mae Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaethau cenedlaethol ar y potensial ar gyfer cydweithio mewn gwahanol sectorau.

- Addysg
- Llywodraeth Leol
- Iechyd

Hefyd, mae'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi yn edrych ar gydweithio rhwng gwasanaethau cefnogol ac yn ariannu peilot yng ngogledd Cymru sy'n ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio radical yn yr ardal hon.

**Datblygiadau Rhanbarthol**

2.5 Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cynnwys arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe chyngor yng ngogledd Cymru, wedi gwneud newidiadau eleni er mwyn cynyddu cydweithio yng ngogledd Cymru. Mae wedi sefydlu pedwar Bwrdd Rhaglen:

- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd – mae chwe phrosiect yn y rhaglen ar hyn o bryd yn cynnwys Anableddau Dysgu, Teleofal a Chomisiynu Plant.

- Amgylchedd – mae saith prosiect yn y rhaglen ar hyn o bryd yn cynnwys Gwastraff Gweddilliol, Rheoli Fflyd a Gwarchod y Cyhoedd.

- Addysg – Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar brosiect mawr mewn gwasanaethau cefnogi addysg.

- Gwasanaethau Cefnogol – mae'r rhaglen hon wedi comisiynu cyfres o gynlluniau atebion cyflym (yn cynnwys cydweithio ar adolygiad o ostyngiad treth cyngor person sengl a allai arwain at gynnydd mewn incwm o £1.5 miliwn). Yn fuan, bydd yn comisiynu achos busnes amgen ar gyfer ffordd radical o gydweithio wrth ddarparu gwasanaethau cefnogol ar draws y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru.

2.6 Mae'r Prif Gwnstabl wedi arwain adolygiad o bartneriaethau yng ngogledd Cymru yn ddiweddar a bydd argymhellion ynghylch sut y gellid rhesymoli nifer y partneriaethau ar gael yn fuan.

2.7 Ceir enghreifftiau cynyddol o Gynghorau yn paru ac yn gwneud penodiadau ar y cyd ar gyfer rhai gwasanaethau.

**Y Cyd-destun Cyffredinol**

2.8 Er bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi ailadrodd awydd i gynnal 22 Cyngor Lleol ar wahân yn ddiweddar, mae hefyd wedi pwysleisio bod 22 Awdurdod Lleol yn darparu eu gwasanaethau i gyd eu hunain ar wahân yn anghynaladwy ac mae wedi nodi “bod angen i Gynghorau fod yn fwy uchelgeisiol yng ngraddfa a chyflymder y newid os ydynt yn bwriadu bodloni heriau ariannol”.

2.9 Mae’n amlwg bod tirwedd darparu gwasanaethau cyhoeddus yn newid yn gyflym ac ar gyflymder cynyddol a’r patrwm yn y dyfodol yw y bydd nifer o wasanaethau yn cael eu darparu ar y cyd mewn rhyw ffordd neu’i gilydd.

## 3.0 FFRAMWAITH PENDERFYNIAD

3.1 Hyd yn oed ar y pwynt cynnar hwn wrth archwilio’r posibilrwydd o integreiddio gwasanaethau ar raddfa fawr gydag awdurdod arall – dylai aelodau ymarfer diwydrwydd dyladwy. Dylai’r Cyngor ystyried pa un a allai’r cysyniad fod yn fuddiol i drigolion Gwynedd a helpu i warchod y gwasanaethau rheng flaen.

3.2 Fy nghyngor cyson i aelodau wrth asesu cyfleoedd cydweithio yw defnyddio egwyddor busnes sylfaenol – sef y gymhareb risg/budd. Po fwyaf yw’r risg sydd ynghlwm â menter y mwyaf y dylai’r buddion posib fod. Yn amlwg, dylai astudiaeth sgopio gynorthwyo’r Cyngor i gael gwell dealltwriaeth o’r materion hyn. Fodd bynnag, mae’n bosib gweithredu ystyriaeth lefel uchel hyd yn oed ar y pwynt hwn.

3.3 Yn nhermau buddion, mae’r integreiddiad ar raddfa fawr posib yn creu’r potensial i arbed miliynau o bunnoedd y flwyddyn a gwell gwytnwch gwasanaeth. Yn nhermau risgiau, ceir tair risg lefel uchel.

- **A all integreiddio ar raddfa fawr weithio?** Ni cheir unrhyw enghreifftiau eraill yng Nghymru o’r lefel bosib o integreiddio a ystyrir yma. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o dimau rheoli integredig gydag integreiddio gwasanaeth yn rhannol yn Lloegr ond mae’r rhain wedi bod rhwng Cynghorau Dosbarth hyd yn hyn. Felly, gwyddom y gall y model weithio mewn egwyddor ond rydym yn ansicr ynghylch pa un a all ymdopi gyda maint a chymhlethdod Cynghorau unedol.

- **A oes risgiau penodol ynghlwm â'r partner potensial?** – Mae Môn yn Gyngor sy'n trawsnewid. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penodi Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro a Bwrdd Adfer i fonitro cynnydd yn erbyn cynllun adfer. Mae Asesiad Corfforaethol cychwynnol Swyddfa Archwilio Cymru wedi casglu bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyrraeth gan Weinidogion ond bod llawer o waith ar ôl i'w wneud i alluogi mwy o foderneiddio a sicrhau cynaladwyedd y gwelliannau. Mae hefyd wedi casglu bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i gyflwyno amrediad eang o wasanaethau. Mae yna enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus rhwng ein dau Gyngor, yn benodol ym maes addysg. Un broblem ar hyn o bryd yw bod diffyg fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer cydweithio wedi golygu ei bod wedi bod yn anodd mynd i'r afael â chyfleoedd cydweithio pellach.

- **A fyddai cynllun cydweithio o'r maint posib hwn yn tynnu sylw oddi ar Agenda Gwella ac Effeithlonrwydd Cyngor Gwynedd?** Ceir teimlad cynyddol bod Cyngor Gwynedd yn gwneud cynnydd cyffredinol da er gwaethaf amgylchiadau ariannol heriol iawn. Ni all y Cyngor anwybyddu'r risg y gallai newid strwythurol mawr i reolaeth a gwasanaethau arwain at leihad dros dro mewn perfformiad a cholli momentwm.

3.4 Un fantais o fynd i'r afael â'r opsiwn astudiaeth sgopio yw y gallai'r Cyngor ddod i well dealltwriaeth o'r risgiau a'r buddion. Dylai pwyslais yr astudiaeth sgopio fod ar uchafu'r cyfle am fuddion a darganfod ffyrdd o liniaru unrhyw risgiau sylweddol.

**4.0 CASGLIAD**

4.1 Rwyf yn bendant o'r farn, fel Cyngor unigol, fod y risgiau sydd ynghlwm â gostyngiad pellach mewn uwch reolwyr ar hyn o bryd yn gorbwyso'r buddion. Mae posibilrwydd amgen ar gyfer gostwng gorbenion rheolwyr ac eraill yng nghost darparu gwasanaethau wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Mae gan y dewis arall hwn fuddion posib sylweddol ond nid yw heb ei risgiau.

4.2 Pa un a fydd y Cyngor hwn yn cymryd y cyfle i ymchwilio i'r posibilrwydd ymhellach neu beidio, ni fydd yn darparu gymaint o wasanaethau ar ei ben ei hun yn y dyfodol. Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, mi fydd yna fwy o ddarparu gwasanaethau ar y cyd yn y dyfodol.

4.3 Ceir tystiolaeth gynyddol o gynghorau yn clystyru er mwyn rhannu swyddi rheolaethol a darparu gwasanaethau yn ogystal â'r cyfleoedd cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar ddod. Dylid ystyried yn fanwl y cyfle i ymchwilio i'r posibilrwydd o integreiddio ar raddfa fawr.

4.4 Fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, rhaid i mi gofnodi fy mhryderon y bydd y cynllun hwn yn achosi ansicrwydd i staff, yn benodol rheolwyr. Os yw'r Cyngor yn penderfynu ymchwilio i'r cyfle hwn ymhellach mae gofyn iddo gael cydbwysedd rhwng cyflymder ymchwilio i'r cyfle a diwydrwydd dyladwy ac ymwybyddiaeth o bryder staff. Fodd bynnag, yn nhrafodaethau'r Cyngor, dylai aelodau bob amser roi buddiannau a lles dinasyddion Gwynedd yn uwch na buddiannau sefydliadol h.y. yr hyn sy'n gyfleus i staff a chynghorwyr.

4.5 Ni ddylai'r Cyngor benderfynu cymryd rhan mewn astudiaeth sgopio oni bai ei fod yn barod i fynd i'r afael â'r mater ymhellach pe byddai canlyniad yr astudiaeth sgopio yn gadarnhaol.

## 5.0 Argymhellion

5.1 Argymhellir nad yw'r Cyngor yn ystyried ymhellach cynllun opsiwn C ar gyfer gostwng uwch reolwyr ymhellach ar hyn o bryd.

5.2 Argymhellir bod y Cyngor yn penderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach i gyfleoedd cydweithio ar raddfa fawr gyda Cyngor Môn yn unol ag egwyddorion yr astudiaeth sgopio ym mhapur y Gweinidog yn Atodiad 1, fel modd amgen o ostwng gorbenion rheolwyr a gwireddu arbedion.

5.3 Bod y Prif Bwyllgor Craffu yn craffu'r adroddiad a'r argymhellion ac yn darparu cyfarwyddyd i Fwrdd y Cyngor ar y ffordd orau o weithredu. Dylai aelodau nodi y bydd argymhellion y Bwrdd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 16 Rhagfyr.

-----------------------------------------------------------------------------------------------

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Members**

Dim yn fater lleol / Not a local issue.

-----------------------------------------------------------------------------------------------

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

Awdur yr Adroddiad/Author of the report

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

Mae gan y Cyngor ddylestwydd ymddiriedol i warchod buddiannau Gwynedd. Bydd raid i'r Bwrdd gadw hyn mewn cof wrth bwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol (sydd wedi eu rhestru yn yr adroddiad) cyn dod i benderfyniad ar pa argymhelliad i'w wneud i'r Cyngor.

Dymunaf gofnodi buddiant personol yn yr eitem oherwydd y posibilrwydd y bydd effaith ar fy adran.

The Council has a fiduciary duty to protect the interests of Gwynedd. The Board will need to bear this in mind in balancing the relevant considerations (which have been listed in the report) before comiing to a decision on the recommendation to be made to the Council.

I wish to record a personal interest in the item because of the possible effect on my department."

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Mae adroddiad y Prif Weithredwr yn cyflwyno'n deg fod cyfle i Cyngor Gwyneddwireddu arbedion sylweddol o gydweithio ac integreiddio gwasanaethau, tra'n amlinellu'r ffaith fod cryn risgiau'n gysylltiedig â'r fenter.
Wrth gofnodi buddiant personol yn yr eitem oherwydd y posibilrwydd y bydd effaith ar f'Adran, **wrth gwrs byddaf yn parhau i** ddarparu arweiniad proffesiynol i'r Cyngor yn ystod y broses o bwyso a mesur pryd fydd aelodau yn ystyried a phenderfynu ar sail yr astudiaeth cwmpasu i ba raddau byddai'r cysyniad yn gallu bod er budd ariannol i Wynedd.

The Chief Executive's report fairly presents that there is an opportunity for Gwynedd Council to achieve substantial savings from collaborative integration of services, and sets out the considerable risks associated with the venture. While recording a personal interest in this item because of the possible effect on my Department, **of course I shall continue to provide professional advice to** the Council during the due diligence process when members will consider and decide on the basis of the scoping study to what extent the concept could be financially beneficial for Gwynedd.